| CYTUNDEB PERTHYNAS RHWNG<br>PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM<br>AC<br>UNDEB MYFYRWYR GLYNDŴR WRECSAM | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | - | | |
| **Awdur** | Clerc i Fwrdd y Llywodraethwyr/Undeb y Myfyrwyr | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Bwrdd/Undeb y Myfyrwyr | | |
| **Gweithredir gan:** | BIG/Bwrdd y Llywodraethwyr/Undeb y Myfyrwyr | | |
| **Cyfeirnod:** | AGBOG2223057 | | |
| **Newydd / Adnewyddu:** | STBG1718030 | | |
| **Fersiwn Rhif:** | F2 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | UyM<br>Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>Bwrdd y Llywodraethwyr |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 15/7/22 | **Rhif y cofnod:** | 21.35<br>21.116.01 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad gweithredu:** | 1 Awst 2017 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 5 mlynedd (galw am adolygiad blynyddol) | **Dyddiad adolygu:** | Gorffennaf 2027 |

# CYTUNDEB PERTHYNAS RHWNG PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM AC UNDEB MYFYRWYR GLYNDŴR WRECSAM

## 1. Cyflwyniad a chyd-destun

1.1 Nod y cytundeb perthynas hwn yw darparu cyfeiriad eglur i'r Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr, ac amlinellu'r sylfaen ar gyfer y berthynas rhwng y ddau a'r egwyddorion y bydd y ddau yn gweithredu oddi tanynt.

*1.2* Mae'r cytundeb perthynas yn cymryd i ystyriaeth ofyniad cyfreithiol y Corff Llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 1994 i sicrhau y dylid sefydlu Undeb Myfyrwyr sy'n *'gweithredu mewn modd teg* a *democrataidd ac yn atebol am ei gyllid'.* Mae'n tynnu ar brosiect 'Llywodraethiant Da' Undeb Myfyrwyr Cymru Mawrth 2011 a ddynododd egwyddorion allweddol sy'n ategu perthnasau gwaith rhagorol rhwng Undebau Myfyrwyr a sefydliadau addysg uwch a ardystiwyd gan Brifysgolion y DU, y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol a GuildHE; a chylchlythyr CCAUC W14/06HE *Arweiniad diwygiedig ar arfer da wrth gyllido undeb myfyrwyr effeithiol, democrataidd,* a *chynrychiolaeth myfyrwyr.*

1.3 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod yr Undeb Myfyrwyr yn bartner pwysig sydd yn chwarae rhan allweddol mewn gwella profiad myfyrwyr.

## 2. Cefndir

2.1 Ymgorfforwyd Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam ar 1 Awst 2016 gan sefydlu corff elusennol newydd gyda'r nod o hybu addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam er lles y cyhoedd trwy:

i. hyrwyddo lies a buddiannau Myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr yn ystod eu hastudiaethau a chynrychioli, cefnogi a chynghori Myfyrwyr;
ii. fod y sianel gynrychioliadol gydnabyddedig rhwng Myfyrwyr a Phrifysgol Glyndŵr ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
iii. darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon ac adloniadol a fforymau trin a thrafod ar gyfer datblygiad personol ei Fyfyrwyr.

2.2 Cefnogir y cytundeb perthynas hwn gan y canlynol:

i. Cyfansoddiad Undeb Myfyrwyr a fydd yn cael ei adolygu ganddynt bob pum mlynedd o leiaf, a'i ardyrstio gan Fwrdd y Llywodraethwyr;
ii. cod ymarfer, a gyflenwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr, sy'n nodi'r modd y dylai gofynion y Ddeddf Addysg gael eu gweithredu o ran gweithrediad, materion ariannol, rhwymedigaethau a chwynion yr Undeb;
iii. memorandwm cytundeb rhwng y Brifysgol a'r Undeb yn nodi cyfrifoldebau ac ymrwymiadau'r Undeb Myfyrwyr a'r Brifysgol, y berthynas ariannol a

sianeli cyfathrebu;

iv Siarter Myfyrwyr wedi'i ysgrifennu a'i adolygu ar y cyd rhwng y Brifysgol a’r Undeb Myfyrwyr bob blwyddyn a'i rannu gyda Bwrdd y Llywodraethwyr, a fydd yn cynnwys

a. gwybodaeth am astudiaethau’r myfyrwyr (e.e. y Fframwaith Dysgu Gweithredol), cyfathrebu â’i gilydd, y Gymraeg, cymorth a llesiant, cynrychiolaeth a mynegi pryderon
b. ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth i sicrhau’r profiad myfyrwyr a phrifysgol gorau posibl a gweithio gyda’n gilydd yn weithgar i adolygu, cefnogi a herio ein gilydd wrth greu’r strategaeth orau bosibl ar gyfer y Brifysgol a’r Undeb Myfyrwyr
c. ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Undeb Myfyrwyr sy’n gallon i gymuned myfyrwyr ffyniannus Glyndŵr.

## 3. EGWYDDORION

Mae Prifysgol Glyndŵr ac Urdd Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr yn cytuno i fabwysiadu'r egwyddorion canlynol fel sail eu perthynas waith:

### 3.1 Partneriaeth Strategol ac Ymgysylltu

Ysbryd o bartneriaeth rhwng y Brifysgol a'r Undeb yn hysbysu cyfeiriad strategol y ddau ac yn hysbysu cytundebau gwasanaeth.

Cyfranogiad cytbwys cynrychiolwyr yr Undeb mewn cyrff gwneud penderfyniadau sefydliadol allweddol, a fydd yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i’r isod:

- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywydd yr Undeb Myfyrwyr ac Is-Ganghellor y Brifysgol
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Undeb Myfyrwyr a’r Dirprwy Is-Ganghellor dros faterion academaidd a phrofiad y myfyrwyr
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Undeb Myfyrwyr a’r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau sy’n gyfrifol am faterion gweithredol a phrofiad y myfyrwyr
- Cyfarfodydd rheolaidd â’r Deoniaid Cyswllt Profiad Myfyrwyr
- Aelodaeth:
  - Y Bwrdd Llywodraethwyr a Phwyllgorau perthnasol y Bwrdd
  - Y Bwrdd Academaidd a phwyllgorau perthnasol y Bwrdd Academaidd
  - Bwrdd yr Is-Ganghellor
  - Grwpiau gorchwyl a gorffen a grwpiau rhwydweithio allweddol a sefydlwyd i sicrhau gwelliannau ym meysydd profiad personol ac academaidd myfyrwyr megis: gwella digidol; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; gweithio mewn partneriaeth yn academaidd; cynaliadwyedd amgylcheddol; y Gymraeg ac iechyd a llesiant meddwl.

### 3.2 Myfyriwr-Ganolog

Cyd-ymroddiad i ddatblygu a gwella profiad myfyrwyr o ran agweddau academaidd ac allgwricwlaidd eu bywydau.

### 3.3 Llais y Myfyriwr

Cydnabyddiaeth gan y Brifysgol bod yr Undeb Myfyrwyr yn randdeiliad allweddol a’r corff sylfaenol sy’n cynrychioli llais y myfyriwr.

Byddwn yn gweithio ar y cy di gydnabod llais y myfyriwr trwy ystod o ddulliau, i sicrhau bod myfyrwyr yn bartneriaid ar bob lefel yn y Brifysgol. Byddwn yn gweithio gyda’n gilydd i sicrhau bod y System Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn gweithio’n effeithio, gan ganolbwyntio’n benodol ar:

- Recriwtio a dethol
- Dysgu a datblygu, yn cynnwys modiwl eiriolaeth
- Cyflawni'r rôl, yn cynnwys darpariaeth modiwl Llais y Myfyriwr Unitu
- Gwobrwyo a chydnabyddiaeth, yn cynnwys y gwobrau staff a myfyrwyr
- Cydgysylltu â'r Cyngor Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Cyrsiau i adnabod materion allweddol sy'n effeithio ar brofiadau'r myfyrwyr
- Adolygiad blynyddol swyddi'r Cyngor Myfyrwyr i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn cynrychioli'r holl grwpiau myfyrwyr yn ddigonol.

### 3.4 Parch a Dealltwriaeth

Eglurder ynghylch, a dealltwriaeth am rolau penodol y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr a'r gwerth y mae'r ddwy ochr yn ei chael o'r berthynas.

### 3.5 Gonestrwydd, Ymddiriedaeth ac Enw Da

Cyfathrebu rheolaidd, llawn ac agored ynghylch materion perthnasol, yn arbennig materion sy'n debygol o gael effaith ar yr ochr arall, poblogaeth y myfyrwyr a/neu randdeiliaid ar y cyd eraill, a gweithio i sicrhau ystyried enw da y naill a'r llall yn drwyadl yn eu gweithredoedd.

### 3.6 Cefnogaeth ac Ymroddiad gan y naill ochr

Rhyngweithio adeiladol. Ymroddiad amlwg i wneud i'r berthynas weithio trwy fuddsoddi amser ac adnoddau.

### 3.7 Annibyniaeth

Cydnabyddiaeth o werth Undeb Myfyrwyr cryf, myfyriwr-ganolog sydd â'r grym i benderfynu ar a rheoli ei faterion ei hun. Cydnabyddiaeth o'r angen i'r Brifysgol fantoli buddiannau ystod o randdeiliaid yn y cyd-destun allanol cynyddol heriol.

### 3.8 Atebolrwydd

Atebolrwydd yr Undeb Myfyrwyr i'r Brifysgol fel goruchwylydd (o dan Ddeddf Addysg 1994) a phrif gyllidwr, o fewn fframwaith y cytunwyd arno gan y ddwy ochr, sydd yn gadarn, yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gydnaws agofynion cofnodi rheoleiddwyr eraill, megis y Comisiwn Elusen a/neu Dŷ'r Cwmnïau.

Cydnabyddiaeth gan y Brifysgol fod Undeb y Myfyrwyr yn fudd-ddeiliad o bwys a'r prif gorff sy'n cynrychioli llais y myfyrwyr.

### 3.9 Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniad[1] a Chydraddoldeb

Ymrwymiad ar y cyd ac ystyried gweithredol anghenion amrywiaeth, cynhwysiant, cydlyniad a chydraddoldeb y gymuned myfyrwyr a'r brifysgol.

### 3.10 Cyllid

Bydd y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr yn ystyried swyddogaethau craidd ac ychwanegol yr Undeb ac yn cytuno ar gyllid priodol.

---

[1] Mae cydlyniad yn yr ystyr hwn yn cyfeirio at ddatblygiad a chynnal a chadw'r berthynas gadarnhaol gref rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, gyda gweledigaeth ar y cyd a synnwyr o berthynas i bawb

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau y mabwysiadir cynlluniau mynediad a chyfranogiad a'u hadolygu yn flynyddol i sicrhau ystyried y rhwystrau i addysg uwch ac ymdrin â nhw a'u diddymu, gan rannu gweithgareddau ac adnoddau'n briodol rhwng ein sefydliadau.

### 3.11 Diogelu Data

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein myfyrwyr yn mwynhau profiad didrafferth wrth fanteisio ar aelodaeth y ddau sefydliad tra'n parchu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a chyfreithiau diogelu data perthnasol.

### 3.12 Rhyddid i Lefaru

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein hymrwymiad i hybu rhyddiad i lefaru a gweithio o fewn y gyfraith i ddarparu profiadau addysg diogel.

## 4. PERTHYNAS WAITH

Bydd yr egwyddorion a amlinellir uchod yn berthnasol i'r holl ryngweithio rhwng yr Undeb Myfyrwyr a'r Brifysgol ac maent yn arbennig o bwysig lle cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng y ddau gorff.

## 5. ADOLYGU

Bydd y cytundeb perthynas hwn yn cael ei adolygu ar y cyd bob blwyddyn gyda'r Undeb Myfyrwyr ac yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn y cyfarfod olaf ym mhob blwyddyn academaidd.

**Ardystiwyd gan:**

**5.1** Bwrdd **y Llywodraethwyr**

Llofnodwyd:

Dyddiad: 15/7/22

Dr Leigh Griffin
Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr

**5.2 Bwrdd yr Is-Ganghellor**

Llofnodwyd:

Dyddiad: 15/7/22

Yr Athro Maria Hinfelaar
Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr

**5.3 Undeb Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam**

Llofnodwyd:

Dyddiad: 15/7/22

Lauren Hole
Llywydd Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam 2022/23